**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn**

**(95)**

**Dydd Mawrth, 2 Tachwedd 2004**

**AGENDA**

**Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cynnig i ethol Janet Ryder i'r Pwyllgor Deddfau yn lle Elin Jones**

*NDM2136 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheolau Sefydlog 8.3 ac 11.1 yn ethol Janet Ryder (Plaid Cymru) i'w Bwyllgor Deddfau yn lle Elin Jones (Plaid Cymru).

**Eitem 2**
**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**

Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Cwestiwn Brys**
**Ieuan Wyn Jones (Ynys Mon):** Will the Minister make a statement on the recent flooding problems in Ynys Mon and the rest of Wales.

**Eitem 3**
**Datganiad Busnes**

Cliciwch yma i weld y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 4**
***Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth***
**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25**

*NDM2137 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24.25:

1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Hydref 2004 ar y rheoliadau drafft, **Rheoliadau Hadau Planhigion Olew a Ffibr (Cymru) 2004**; a

b) yn cymeradwyo bod Rheoliadau Hadau Planhigion Olew a Ffibr (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol ag:

i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Hydref 2004

ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Hydref 2004

iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Hydref 2004.

Cliciwch yma i weld Rheoliadau Hadau Planhigion Olew a Ffibr (Cymru) 2004 - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Cliciwch yma i weld adroddiad y Pwyllgor Deddfau.
Cliciwch yma i weld yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Cliciwch yma i weld y Memorandwm Cywiriadau

2. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Hydref 2004 ar y gorchymyn drafft, **Gorchymyn Cyngor Gofal Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2004**; a

b) yn cymeradwyo bod Gorchymyn Cyngor Gofal Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2004 yn cael ei wneud yn unol ag:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Hydref 2004

ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Hydref 2004

Cliciwch yma i weld Gorchymyn Cyngor Gofal Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2004
Cliciwch yma i weld adroddiad y Pwyllgor Deddfau.
Cliciwch yma i weld yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

3. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Hydref 2004 ar y gorchymyn drafft, **Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) (Cyrff Cyhoeddus) (Cymru) 2004**; a

b) yn cymeradwyo bod Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) (Cyrff Cyhoeddus) (Cymru) 2004 yn cael ei wneud yn unol ag:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Hydref 2004

ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Hydref 2004

Cliciwch yma i weld Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) (Cyrff Cyhoeddus) (Cymru) 2004
Cliciwch yma i weld adroddiad y Pwyllgor Deddfau.
Cliciwch yma i weld yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

4. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Hydref 2004 ar y rheoliadau drafft, **Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 200**4; a

b) yn cymeradwyo bod Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol ag:

i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Hydref 2004

ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Hydref 2004.

Cliciwch yma i weld Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2004
Cliciwch yma i weld adroddiad y Pwyllgor Deddfau.
Cliciwch yma i weld yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

**Eitem 5**
**Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau Deddf yr Asiantaeth Diogelu Iechyd 2004 i Brif Weinidog Cymru**
*NDM2139 Karen Sinclair (De Clwyd)*

1. Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol ag adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol sydd wedi eu cynnwys yn Neddf yr Asiantaeth Diogelu Iechyd 2004, neu sy'n dod o dan y ddeddf honno, i Brif Weinidog Cymru, heblaw am y rhai hynny na ellir eu dirprwyo yn gyfreithiol.

2. Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.

3. Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan ei gwneud yn hysbys y byddant yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidog priodol yn y Cynulliad, ac i staff pan fo hynny'n briodol.

Gellir gweld Deddf yr Asiantaeth Diogelu Iechyd 2004 ar y Rhyngrwyd gan ddefnyddio'r cysylltiad hwn: http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2004/20040017.htm - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr

**Eitem 6**

**Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau Rhan 8 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 i Brif Weinidog Cymru**

*NDM2140 Karen Sinclair (De Clwyd)*

1. Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol ag adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol sydd wedi eu cynnwys yn Rhan 8 (adrannau 68, 71, 72, 73, 74, 81, 82, 83, 93 a 94) Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003, i Brif Weinidog Cymru, heblaw am y rhai hynny na ellir eu dirprwyo yn gyfreithiol.

2. Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.

3. Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan ei gwneud yn hysbys y byddant yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidog priodol yn y Cynulliad ac i staff, fel y bo hynny'n briodol.

Gellir gweld Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 ar y Rhyngrwyd gan ddefnyddio'r cysylltiad hwn: http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2003/20030038.htm *- Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr*

**Eitem 7**

**Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau Deddf Addysg Uwch 2004 i Brif Weinidog Cymru**

*NDM2138 Karen Sinclair (De Clwyd)*

1. Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol ag adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Addysg Uwch 2004, neu sy'n dod o dan y ddeddf honno, i Brif Weinidog Cymru, heblaw am y rhai hynny na ellir eu dirprwyo yn gyfreithiol.

2. Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.

3. Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan ei gwneud yn hysbys y byddant yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidog priodol yn y Cynulliad ac i staff, fel y bo hynny'n briodol.

Gellir gweld Deddf Addysg Uwch 2004 ar y Rhyngrwyd gan ddefnyddio'r cysylltiad hwn

*http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2004/20040008.htm - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr*

Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:
Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cynnal yn unigol:

**(1) + (2)**
**(3), (4), (5) + (6)**

Gwelliant 1 - **Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Rhwng y geiriau "Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru" a "weithredu’n unol ag adran 62", ychwanegu’r geiriau:

"yn credu bod ffïoedd dysgu amrywiol mewn egwyddor yn anghywir, a chan"

**Gwelliant 2**

- **Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ar ôl y geiriau "heblaw am y rhai hynny na ellir eu dirprwy yn gyfreithiol", ychwanegu’r geiriau

"neu’r rheini sy’n ymwneud â strwythur y ffïoedd dysgu"

**Gwelliant 3 -**

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt bwled 2 newydd ac ailrifo’r pwyntiau sy’n weddill yn unol â hynny:

Yn galw ar y Prif Weinidog i ddangos arweiniad trwy greu system ariannu gynaliadwy ar gyfer addysg uwch.

**Gwelliant 4 -**

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynnu ymrwymiad gan y Gweinidog i ariannu cohort myfyrwyr 2006 yn llawn.

**Gwelliant 5 -**

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynnu bod y Gweinidog yn cynyddu'r arian i Addysg Uwch i sicrhau yr ysgwyddir cost cyflwyno'r fframwaith cyflogau newydd.

**Gwelliant 6 -**

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cyfarwyddo'r Gweinidog i roi ger bron y Cyfarfod Llawn cyn pen chwe mis strategaeth ac amserlen i roi Coleg Ffederal Cymraeg ar waith ac i'w ddatblygu.

**Eitem 8**
**Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru**
*NDM2135 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn gresynu at y bwlch cyfoeth sy'n tyfu o dan Lafur Newydd.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol*:

**(1)**
**(2)**
**(3)**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu'r cyfan ar ôl 'Cymru' a rhoi yn ei le:

'Yn cydnabod bod Llafur Newydd wedu methu â chau'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd.'

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod y 10% tlotaf, 7 mlynedd ar ôl ethol Llywodraeth Lafur, yn dal i dalu dros 4 gwaith mwy o'u hincwm mewn treth gyngor na'r 10% cyfoethocaf ac yn credu, er mwyn

cau’r bwlch cyfoeth, y dylid diddymu’r dreth gyngor a sefydlu treth incwm leol sy’n gysylltiedig â’r gallu i dalu yn ei lle.

**Gwelliant 3 - David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

'ac yn galw am adolygiad o "Gymru'n Ennill" a'i tharged o gyrraedd lefel CMC y pen sy'n 90% o lefel y DU erbyn 2010.'

Gallwch gael gafael ar 'Cymru'n Ennill' drwy ddefnyddio'r cyswllt hwn:

*http://www.cymru.gov.uk/themesbudgetandstrategic/content/neds/awinningwales-0302-w.pdf - Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr*

Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm

…………………………………………..

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

2.00pm ddydd Mercher, 3 Tachwedd 2004

E P Silk

Clerc y Cynulliad